## CRONFA ALLWEDDOL SPF GWYNEDD : CANLLAWIAU

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Allweddol Gwynedd

Drwy gronfa Ffyniant Cyffredin y DU, mae bwriad i agor sawl Cronfa Allweddol erbyn diwedd mis Mehefin 2023. Bydd y cronfeydd yma yn ein galluogi i gefnogi sefydliadau i ddatblygu prosiectau a chynnal digwyddiadau o fewn y maes Adfywio, Diwylliant ac Actifedd, yngyd a chronfa i gefnogi Busnesau'r sir. Fe fydd modd ymgesio am arain ar gyfer datblygu prosiectau/ cynnal digwyddiadau i'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2024 drwy'r cronfeydd. Rydym yn gobeithio rhyddhau manylion pellach am y cronfeydd hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rydym yn ymwybodol bod clwstwr o ddigwyddiadau sirol yn cael eu cynnal ym Mai a Mehefin 2023, cyn dyddiad lansio'r cronfeydd newydd. Er mwyn ymateb i hyn bydd y gronfa i ddigwyddiadau 2023-24 yn cael ei weinyddu mewn dwy ran.

CAM1 : derbyn ceisiadau gan ddigwyddiadau a gynhelir **ym Mai a Mehefin 2023 YN UNIG.** Bydd angen cwblhau a dychwelyd y ffurflen yn ddigidol trwy e-bost i digwyddiadau@gwynedd.llyw.cymru, **Rydym yn derbyn ceisiadau mor fuan â phosib er ystyriaeth, ac erbyn y dyddiad cau o 22ain o Fai 2023.**

CAM 2 : caiff y gronfa cymorth sirol ei lansio diwedd Mehefin 2023. Os yw eich prosiect/digwyddiad yn digwydd unrhwy bryd o'r **1af o Orffennaf 2023** ymlaen yna bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen ymgeiso fydd yn cael ei rhyddhau maes o law.

**Noder na fyddwn yn gallu ystyried unrhwy gais am brosiect arwahan i gynnal digwyddiadau yn ystod Mai a Mehefin 2023 o fewn amserlen CAM 1.**

Gallwn ystyried unrhyw gais sydd yn ymateb i'r nodau a'r amcanion isod;

**Cronfa refeniw a chyfalaf digwyddiadau twf / newydd a digwyddiadau llai yng Ngwynedd 2023 , 2024 amodau cysylltiedig**
Caiff y ceisiadau eu hasesu ar ei eu heffaith ar gymunedau Gwynedd, cynaliadwyedd amgylcheddol yr iaith a diwylliant lleol a budd economaidd.

**Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus gyd-fynd gyda'r amodau canlynol**

- Cefnogi egwyddorion ymweld cynaliadwy
- Cefnogi gweithgareddau diwylliannol , ieithyddol ac amgylcheddol
- Cefnogi gweithgareddau yn cefnogi'r dynodiad Safle Treftadaeth Byd Tirlun gogledd orllewin Cymru
- Cefnogi gweithgareddau yn creu bwrlwm canol trefi e.e digwyddiadu Nadolig a hyrwyddo cynnyrch lleol
- Cefnogi dathliadau arbennig neu weithgaredd i gefnogi buddsoddiadau diweddar e.e Llwybr yr arfordir, yr Eisteddfod Genedlaethol, buddsoddiadau is-adeiledd i gefnogi digwyddiadau canol trefi
- Cefnogi ceisiadau gan leoliadau neu ddarparwyr er mwyn rhoi cyfres / rhaglen o ddigwyddiadau ymlaen
- Cefnogi buddsoddiadau i wneud digwyddiadau'n fwy cynaliadwy
  e.e defnyddio llai o blastig, lleihau ôl troed carbon, lleihau defnydd o danwydd , cryfhau trefniadau ail-gylchu ac ail-ddefnyddio
- Cefnogaeth cyfalaf er mwyn creu darpariaeth fwy hirdymor er mwyn cynnal digwyddiadau –
  e.e darparu isadeiledd gwefru a chysylltedd,

## CRONFA ALLWEDDOL SPF GWYNEDD : CANLLAWIAU

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Allweddol Gwynedd

**Dylid nodi**

- manylion buddion economaidd a chymunedol yn eich cais gan gynnwys manylion darparwyr a chyflenwyr lleol posib y byddwch yn cydweithio a hwy
- manylion nifer mynychwyr a neu cystadleuwyr
- manylion cyflogaeth – swyddi wedi eu creu a swyddi wedi eu diogelu
- manylion gwirfoddolwyr a chyfleoedd cyfranogi i drigolion a phobl ifainc Gwynedd

**MANYLION YR YMGEISYDD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Prif sefydliad sy'n Gwneud y Cais | Rhowch enw'r sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais |
| 2. | Cyfeiriad y Sefydliad | Cyfeiriad y sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais |
| 3. | Beth yw natur eich sefydliad | Gall unrhyw sefydliad sydd ddim yn dosbarthu elw ymgeisio am arian drwy'r gronfa, (ac eithrio trefnwyr digwyddiadau)<br><br>Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad fod wedi eu lleoli, ac / neu yn darparu ar gyfer trigolion Gwynedd i geisio am gefnogaeth drwy'r cronfeydd hyn.<br><br>Mae'n rhaid cyrraedd y meini prawf canlynol os am gesio am arian o'r gronfa;<br><br>• Ni all eich sefydliad ddosbarthu elw (oni bai am drefnwyr digwyddiadau)<br>• Rhaid i'ch sefydliad fod a statws cyfreithiol a chyfansoddiadol<br>• Rhaid i'ch sefydliad fod a strwythur rheoli clir<br>• Rhaid i'ch sefydliad gael sustem rheolaeth ariannol glir<br>• Bod ag egwyddorion gweithredol sy'n cyd-fynd a deddfwriaeth ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr<br>• Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb yn gysylltiedig a mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion ethnig<br>• Yn meddu ar amcanion a nodau sydd yn cyd-fynd a gweithgareddau ariannir drwy'r grant yma<br>• Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun<br>• Rhaid dangos bod egwyddorion gwerth am arian wedi eu dilyn wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun<br>• Bod egwyddorion gweithredol yn eu lle sy'n cyd fynd a ddeddfwriaeth amddiffyn plant ac oedolion bregus.<br><br>Noder na allwn dderbyn ceisiadau gan unigolion i'r gronfa |
| 4. | Rhif y Cwmni /Elusen | Nodwch Rhif cwmni / elusennol y sefydliad os yn berthnasol |
| 5 | Enw Cyswllt Arweiniol | Nodwch enw'r prif gyswllt sydd yn gweithredu ar ran y sefydliad a Teitl swydd o fewn y sefydliad |
| 6. | Enw Cyswllt Eilaidd | Enw eilydd ar ran y sefydliad a Teitl o fewn y sefydliad |
| 7. | Rhif Ffôn Cyswllt | Nodwch rhif ffon y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer cysylltu a chwi i drafod unrhyw faterion yn ymwneud a'r cais |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | Cyfeiriad e-bost | E-bost y prif gyswllt – fe fydd pob gohebiaeth parthed eich cais yn cael ei anfon i'r cyfeirid e bost a nodir yma |
| 9. | Cyfeiriad Gwefan y sefydliad | Safle we'r sefydliad ynghyd a manylion cyfrifon cymdeithasol e.e. Twitter, Facebook, Instagram |
| 10. | Oes gan eich sefydliad gyfrif banc yn ei enw sydd angen llofnod dau berson i awdurdodi Taliadau. | Maen rhaid i bob cais sydd yn dod i mewn fod yn enw sefydliad sydd a chyfrif banc a chyfansoddiad<br><br>Os yw eich grwp yn sefydliad newydd sydd yn y broses o agor cyfrif banc, ond nad yw'r cyfrif wedi agor o fewn amserlen y gronfa, mae posib i ni ystyried ceisiadau gan sefydliad arall o fewn eich Cymuned sydd yn gefnogol i'ch cynllun. Yn yr achos yma bydd angen i chi anfon tystiolaeth bod eich cyfrif banc yn y broses o gael ei agor, ynghyd a thystiolaeth o gytundeb rhwng eich sefydliad a'r sefydliad bydd yn ceisio i'r gronfa ar eich rhan.<br>Noder na fydd y cytundeb yma yn amharu ar allu yr un sefydliad i geisio am grant ar gyfer cynllun gwahanol drwy'r gronfa. |
| 11. | Ydi eich grwp yn hawlio TAW | Os nad yw eich sefydliad yn hawlio taw gallwch geisio am grant yn gynnwys y costau TAW. Os yw eich sefydliad yn hawlio TAW ni fydd modd cynnwys TAW eitemau fel rhan o'r cais. |
| 12. | Beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich sefydliad | Disgrifiwch beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich grŵp (hyd at 150 gair) |
| 13. | Os ydych yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, nodwch pa gamau a gymerir i'w diogelu | Dylid yma gyfeirio at unrhyw bolisi a threfniadau sydd mewn lle gan eich sefydliad i ddiogelu plant neu oedolion bregus. |

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Allweddol Gwynedd

**Yn unol a chanllawiau rhaglen SPF, dyma prif Ymyriadau, Allbynnau a Chanlyniadau sydd yn berthnasol i'r Gronfa Galluogi Ein Diwylliant.**

| CRONFA GALLUOGI EIN DIWYLLIANT A LLESIANT | | |
|---|---|---|
| **Ymyriadau** | **Allbynnau Dangosol** | **Canlyniadau Dangosol** |
| W6: Cefnogi gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol. | • Nifer y darpar entrepreneuriaid a gaiff gymorth i baratoi i ddechrau busnes<br>• Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau<br>• Nifer y sefydliadau sy'n cael grantiau<br>• Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth anariannol Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gaiff eu cefnogi<br>• Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gaiff gymorth | • Swyddi a gaiff eu creu<br>• Swyddi a gaiff eu diogelu<br>• Cynyddu nifer yr ymwelwyr<br>• Mwy o ymwelwyr<br>• Gwell niferoedd ymgysylltu<br>• Gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau<br>• Nifer y rhaglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol a arweinir gan y gymuned o ganlyniad i gymorth<br>• Gwell canfyddiad o ddigwyddiadau |
| W8: Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd ehangach a phrofiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i darganfod | • Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau<br>• Nifer y sefydliadau sy'n cael grantiau<br>• Nifer y bobl a gaiff eu<br>• cyrraedd<br>• Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth anariannol | • Cynyddu nifer yr ymwelwyr Mwy o ymwelwyr<br>• Mwy o chwiliadau ar y we am le<br>• Llai o eiddo gwag |
| W17: Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo (masnachwyr a defnyddwyr) yr economi ymwelwyr, fel atyniadau lleol, llwybrau, teithiau a chynhyrchion twristiaeth yn fwy cyffredinol | • Nifer y busnesau sy'n cael grantiau<br>• Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau<br>• Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol<br>• Nifer yr asedau twristiaeth, diwylliant neu dreftadaeth a gaiff eu creu neu eu gwella<br>• Nifer y bobl a gaiff eu cyrraedd | • Swyddi a gaiff eu creu<br>• Swyddi a gaiff eu diogelu<br>• Cynyddu nifer yr ymwelwyr<br>• Mwy o ymwelwyr<br>• Mwy o wariant gan ymwelwyr<br>• Mwy o fuddsoddiad<br>• Gwell canfyddiad o atyniadau |

| | | |
|---|---|---|
| | • Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gaiff eu cefnogi | |

**GWYBODATEH AM Y PROSIECT / DIGWYDDIAD YR YDYCH AM I'R GRONFA ARIANNU**

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Enw'r Prosiect/ Digwyddiad | Nodwch enw'r Prosiect yr ydych am i'r gronfa ei ariannu |
| 15. | Lleoliad y prosiect/Digwyddiad | Nodwch ym mha ardal fydd y prosiect yn weithredol gan gynnwys cod post. |
| 16. | Prif Flaenoriaeth Buddsoddi | Nodwch sut mae eich cais yn cyfrannu at yr amcan isod<br><br>**Nod y Gronfa yw i**<br><br>Gefnogi trefnwyr digwyddiadau nodweddiadol a thwf i gynnal digwyddiadau o ansawdd yng Ngwynedd i greu bwrlwm. Cefnogi cymunedau i greu bwrlwm cymunedol trwy ddigwyddiadau lleol a chymunedol wedi eu selio ar ddiwylliant a rhinweddau arbennig yr ardal.<br><br>**Bach/Lleol** – digwyddiadau bach cymunedol, sydd yn denu cynulleidfa o ddalgylch lleol yng Ngwynedd (ee gwyl/sioe/eisteddfod leol) – £1k-£2k (yn dibynnu ar ei effaith)<br><br>**Canolig/Sirol** – digwyddiadau canolig eu maint, sydd yn denu cynulleidfa ar draws Gwynedd a'r Rhanbarth – £3k-£7k (yn dibynnu ar ei effaith)<br><br>**Mawr/Cenedlaethol** – digwyddiadau o bwys cenedlaethol, sydd yn denu mynychwyr a chynulleidfa ar draws Cymru/Prydain – £5k-£10k (yn dibynnu ar ei effaith) |
| 17. | Math y cais yr ymgeisir am dano | **Gellir ymgeisio am hyd at £10k refeniw a cyfalaf** yn ddibynnol ar natur ac effaith y digwyddiad. Gellir ymgeisio am gyfran o arian cyfalaf a refeniw ar gyfer eich prosiect/digwyddiad<br><br>Bach/Lleol - £1k-£2k<br>Canolig/Sirol – £3k-£7k<br>Mawr/Cenedlaethol – £5k-£10k |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Noder fod y cronfeydd yn gallu ariannu 80% o gost y prosiect/digwyddiad, hyd at £10k. Fodd bynnag mewn eithriadau gallwn ystyried ariannu ceisiadau hyd at 100%. Er hyn rydym yn annog ceisiadau lle mae arian cyfatebol mewn lle, ac yn gofyn i chi roi rheswm pam eich bod yn ymgeisio am 100% o gostau’r prosiect.**<br><br>**Mewn achosion eithriadol gellir ystyried ceisiadau dros £10,000 yn ddibynnol ar natur y weithgaredd, yr allbynnau a’r canlyniadau disgwyliedig.**<br><br>Gweler cwestiwn 11 parthed TAW |
| 18. | Rhifau Ymyrraeth Cronfa SPF | Mae’r rhifau ac esboniad o’r ymyraethau wedi eu nodi yn y tabl uchod. Yma nodwch rhifau’r ymyraethau y mae eich prosiect yn ymateb iddynt – W6,W8 ac W17 |
| 19. | Targedau Allbynnau Dangosol SPF | Mae’r targedau allbwn ar gyfer pob ymyrraeth wedi eu nodi yn y tablau uchod. Rydym yn argymell eich bod yn dewis hyd at 3 targed allbwn ar gyfer pob ymyrraeth gan nodi enw’r allbwn a’r cyfanswm targed arfaethedig |
| 20. | Targedau Canlyniadau Dangosol SPF | Mae’r targedau allbwn ar gyfer pob ymyrraeth wedi eu nodi yn y tabl isod. Rydym yn argymell eich bod yn dewis hyd at 3 targed allbwn ar gyfer pob ymyrraeth gan nodi enw’r allbwn a’r cyfanswm targed arfaethedig |
| 21. | Dyddiad Cychwyn y Prosiect / Digwyddiad | Dylid nodi yma y dyddiad yr ydych yn bwriadu cychwyn ar eich prosiect / cynnal digwyddiad pe byddai’r cais yn llwyddiannus |
| 22. | Dyddiad Gorffen y Prosiect/Digwyddiad | Dylid yma nodi y dyddiad yr ydych yn disgwyl cwblhau eich prosiect/digwyddiad.<br><br>Noder mae’n rhaid i bob cynllun sy’n cael ei ariannu drwy’r cronfeydd allweddol fod wedi eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2024, ac ni fydd modd cael estyniad wedi’r dyddiad yma. |

**CERRIG MILLTIR Y PROSIECT**

| | | |
|---|---|---|
| 23. | Rhestrwch gerrig milltir eich prosiect/digwyddiad | Dylid yma nodi eich amserlen i gwblhau holl elfennau eich prosiect /digwyddiad |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT /DIGWYDDIAD**

| | | |
|---|---|---|
| 24. | Trosolwg o’ch prosiect / digwyddiad (hyd at 500 gair) | Dylech ym roi trosolwg o beth fydd eich prosiect / digwyddiad gan hefyd gyfeirio at weithgareddau, prif nodau ac amcanion eich prosiect/digwyddiad .<br><br>**Dylid nodi yma**<br>• manylion buddion economaidd a chymunedol yn eich cais gan gynnwys manylion darparwyr a chyflenwyr lleol y byddwch yn cydweithio a hwy<br>• manylion nifer mynychwyr a neu cystadleuwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | • manylion cyflogaeth – swyddi llawn amser/ rhan amser<br>• manylion gwirfoddolwyr a chyfleoedd cyfranogi i drigolion a phobl ifainc Gwynedd |
| 25. | Pam bod angen y prosiect /digwyddiad yn eich hardal? (hyd at 250 gair) | Dylech gyfeirio at unrhyw waith ymgynghori a rhoi tystiolaeth o angen y prosiect/digwyddiad yn lleol yma |
| 26. | Pwy fyd dyn elwa o'r prosiect / digwyddiad ? (hyd at 150 gair) | Yma dylech nodi sut bydd cymunedau Gwynedd yn elwa o'r prosiect/digwyddiad. |

**CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL**

| | | |
|---|---|---|
| 27. | Rydw i / rydym ni yn cadarnhau y bydd unrhyw swyddi sydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r grant yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a byddaf yn gweithio tuag at achrediad Cyflog Byw | Os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi bod unrhyw gyflogau grant sy'n cael ei ddefnyddio i dalu cyflogau yn talu'r cyflog byw. Yn ogystal bydd angen nodi erbyn pryd y byddwch yn gweithio i gwblhau archediad cyflog byw |

**CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU LLEOL**

| | | |
|---|---|---|
| 28.a | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Gwynedd 2023-28. | Dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Gwynedd 2023-28. |
| 28.b | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gyda Fframwaith Adfywio Gwynedd a'r Cynlluniau Gweithredu Ardal | Dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Ffrawaith Adfywio Gwynedd a Chynllun Gweithedu eich Ardal. https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx |
| 28.c | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Celfyddydau Gwynedd | **Dim ond os yn berthnasol** i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Celfyddydau Gwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 28.ch | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag ymarfer da Canllaw Digwyddiadau Gwynedd | Dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Ymarfer Da Canllaw Digwyddiadau Gwynedd. Llawlyfr-Cymraeg---Master-v2.pdf (llyw.cymru) |
| 28.d | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru | **Dim ond os yn berthnasol** i’ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. |
| 28.dd | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. |

**YR IAITH GYMRAEG**

| | | |
|---|---|---|
| 29. | A oes gan eich sefydliad Bolisi neu Ddatganiad Iaith Gymraeg | Os nad oes, amlinellwch sut y byddwch yn defnyddio’r grant i sicrhau gwasanaethau dwyieithog i’r cyhoedd? Gall hyn gynnwys eich gwasanaethau (a chyfarfodydd) wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, deunydd printiedig, arwyddion a thudalennau gwefan. |

**SERO NET**

| | | |
|---|---|---|
| 30. | Sut mae'r cynnig yn cefnogi polisïau neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru? (150 gair) | Dylech ateb i’r cwestiwn hwn fod yn benodol i’r prosiect/digwyddiad yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer |

**CYDRADDOLDEB**

| | | |
|---|---|---|
| 31. | Disgrifiwch sut ydych chi wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb eich cynnig, y grwpiau perthnasol a effeithir yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig, ac unrhyw fesurau yr ydych yn eu cynnig mewn ymateb i'r effeithiau hyn. (150 gair) | Dylech ateb i’r cwestiwn hwn fod yn benodol i’r prosiect/digwyddiad yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer |

**PROFIAD A CHAPASITI’R YMGESIYDD**

| | | |
|---|---|---|
| 32 | Pa brofiad sydd gan eich sefydliad o gyflwyno’r math, maint ar raddfa hon o weithgarwch prosiect /digwyddiad (hyd at 200 gair) | Dylid cyfeirio yma at enghreifftiau o brosiectau tebyg neu tebyg eu maint y mae eich sefydliad wedi eu cyflawni yn y gorffennol |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

**ARIANNOL**

| | | |
|---|---|---|
| 33. | Cyfanswm cost y prosiect | Dylid nodi yma union gost y prosiect yn ei gyfanrwydd |
| 34. | Cyfanswm y grant drwy’r gronfa yma gwneir cais amdano | Dylid nodi yma fain o arian drwy’r gronfa yma yr ydych yn ceisio amdano |
| 35. | Refeniw neu Gyfalaf | Dylid nodi yma cyfanswm yr arian Refeniw a Chyfalaf a geisir amdan drwy’r gronfa hon |
| 36. | Ffynhonnell a Swm yr arian cyfatebol | Os ydych wedi sicrhau arian cyfatebol ar gyfer eich prosiect/ digwyddiad, nodwch yma cyfanswm yr arian cyfatebol sydd wedi ei sicrhau ac o ble mae’r arian wedi ei sicrhau |
| 37. | Os ydych yn gofyn am 100% o gost eich prosiect/digwyddiad nodwch eich rhesymeg dros hynny | Wrth ateb y cwestiwn ym dylech gyfeirio at werth am arian eich cynllun |
| 38. | Sut ydych wedi caffael eich prosiect/digwyddiad | Dylid nodi yma sut ydych wedi mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect/digwyddiad ac esbonio pam eich bod yn bwriadu defnyddio un cwmni dros y llall, gan ddangos y gwerth am arian. Yn ychwanegol i’r canllawiau rydym hefyd wedi darparu manylion ac ymarfer da mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect/ digwyddiad ac rydym yn awgrymu eich yn eu darllen yn ofalus. Noder bydd angen i chi anfon pob dyfynbris yr ydych wedi ei dderbyn ar gyfer y prosiect/digwyddiad gyda’r ffurflen gais. |

CRONFA ALLWEDDOL SPF GWYNEDD : CANLLAWIAU

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Allweddol Gwynedd

| **PROFFIL GWARIANT Y PROSIECT /DIGWYDDIADAU**<br><br>**PROJECT EXPENDITURE PROFILE/EVENTS** | | **Nodwch enw'r cyd arianwyr isod**<br>**Please note match funders below** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r eitem a'r gost<br>*Item and cost* | | **Cronfa Galluogi Ein Diwylliant** | ***Cyfraniad y sefydliad /digwyddiadau……..***<br><br>**……………………..** | *…Manylion cyd-ariannu grant* ………..<br><br>……………….. | ……………….<br><br>……………….. | ……………….<br><br>……………….. | **Cyfanswm**<br>***Total*** |
| **1. E.E. DEFNYDDIAU HYRWYDDO A MARCHNATA** | **£** 4,000 | £3,200 | £400<br>(Arian y sefydliad tuag at y digwyddiad) | £ 400<br>(Cyngor Celfyddydau) | | | £4,000 |
| **2.** | **£** | | | | | | |
| **3.** | **£** | | | | | | |
| **4.** | **£** | | | | | | |
| **5.** | **£** | | | | | | |
| **6.** | **£** | | | | | | |
| **Cyfanswm**<br>***Total*** | **£** 4,000 | £3,200 | £400 | £400 | | | £4,000 |

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Allweddol Gwynedd

**RHEOLI CYMORTHDALIADAU**

**RHEOLI CYMHORTHDAL AWDURDODAU STATUDOL**

**Darperir y grant yma o dan Isafswm Cymorth Ariannol (ICA) Deddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Nid yw'r cyllid yn cwmpasu mwy na £315,000 dros gyfnod cyllidol o dair blynedd fel 'Isafswm Cymorth Ariannol (ICA), yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022).**

**Felly, er mwyn cadarnhau eich bod yn gallu cael y cymorth hwn, fel y nodir yn adran 36(1) o'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022) rhaid i chi felly ddatgan swm llawn o gymorth Cymorth Gwladwriaeth yr UE de Minimus/SAFA/SPEI/ICA rydych chi wedi'i gael yn ystod y 36 mis diwethaf o'r dyddiad ar eich llythyr cynnig am y grant hwn.**

**Bydd gofyn i bob busnes / sefydliad sy'n ceisio cefnogaeth gydnabod y rheolau a gwneud yn siŵr na fydd y cymorth a roddir dan y rhaglen hon yn uwch na'r uchafswm cymorth a ellir ei roi i sefydliad dan y rheoliadau hyn.**

**Rwy'n datgan mai dyma'r symiau o gymorth Cymorth Gwladwriaeth yr UE de Minimus/SAFA/SPEI/ICA a gafodd y sefydliad yn y tair blynedd diwethaf (mi fydd unrhyw lythyr cynnig grant yn nodi pa gymorth sydd wedi ei roi)**

| Blwyddyn: | Blwyddyn: | Blwyddyn: | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| Swm: | Swm: | Swm: | |
| Corff / Cyrff Ariannu: | Corff / Cyrff Ariannu: | Corff / Cyrff Ariannu: | |
| Dyddiad Llythyr Cynnig: | Dyddiad Llythyr Cynnig: | Dyddiad Llythyr Cynnig: | |

**DATGANIAD – I'W LENWI GAN YR YMGEISYDD**

**Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais yn gywir. Rwy'n deall y bydd rhaid i mi ad-dalu unrhyw gymorth ariannol a roddir neu na fydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu talu os darganfyddir bod y wybodaeth yma'n anghywir.**

**Enw'r Sefydliad ______________________________________________________________ Enw (PRINTIWCH) ______________________________________________________________ Llofnod ______________________________________________________________ Swydd ____________________________________________ Dyddiad ________________________**

**CRYNODEB**

**BETH SYDD ANGEN EI GYFLWYNO GYDA'R CAIS?**

Rhaid i bob ymgeisydd dychwelyd yr eitemau canlynol;

- Ffurflen Gais
- Copi o Gyfansoddiad y Sefydliad wedi ei arwyddo a'i ddyddio
- Tystiolaeth o amcan brisiau / dyfynbrisiau ar gyfer costau'r cynllun
- Pennawd datganiad banc yn cynnwys manylion cyfrif, rhif didoli, cyfeiriad y Banc
- Tystiolaeth o unrhyw gyfraniadau eraill tuag at y cynllun (tystiolaeth o arian cyfatebol y cynllun)
- Cynllun Busnes y sefydliad (Os yn berthnasol)
- Cynllun Rheoli digwyddiad (Os yn berthnasol)
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb
- Llythyrau Cefnogaeth a thystiolaeth o angen
- Tystiolaeth o fudd cyfreithiol mewn eiddo (les neu weithredoedd), os yn berthnasol
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio, neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes rhaid cael caniatâd cynllunio os yn berthnasol)
- Tystiolaeth Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu (os yn berthnasol)